Cyfeillion Amgueddfa Cymru
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP

Friends of National Museum Wales
Cathays Park, Cardiff CF10 3NP

Elusen Gofrestrig Rhif 701990

Sadwrn 5 Ionawr 2019

Am 10.30 yb yn Narlithfa Reardon Smith, Parc Cathays

'Taffy was a Welshman…'

Sgwrs gan yr Athro Christine James

Yn y sgwrs ddifyr hon, bydd yr Athro Christine James yn trafod y ffyrdd y portreadir y Cymry mewn rhigymau a cherddi Saesneg o'r oesoedd canol ymlaen. Mae eu hymdriniaeth ddireidus a doniol wedi arwain at greu'r ddelwedd stereoteip o'r Cymro a welir mewn darlun ar hyd yr oesoedd, yn union fel sydd wedi digwydd gyda'r Gwyddel, y Sgotyn a chynrychiolwyr gwledydd eraill y byd. Dyma gyfle, ar ddechrau 2019, i ystyried a yw'r stereoteip yn parhau i fod yn ddilys!

Yn frodor o Gwm Rhondda, dysgodd Christine y Gymraeg fel ail iaith, gan astudio am ddoethuriaeth ym maes testunau cyfraith Hywel Dda. Wedi cyfnod fel swyddog golygyddol ar *Y Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, bu'n ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Dysgodd amrywiaeth o bynciau yno cyn dod yn bennaeth ar yr Adran. Yn aelod o Gymdeithas Ddysgedig Cymru, ac yn Gymrodor o Lenyddiaeth Cymru, mae hi hefyd yn Brifardd a enillodd goron Eisteddfod Genedlaethol 2005 am gerdd a ysbrydolwyd gan gasgliad argraffbeintio Amgueddfa Cymru. Fe'i hetholwyd yn Archdderwydd Gorsedd Beirdd Ynys Prydain am y cyfnod 2013 – 2016, a hi oedd y ferch gyntaf oll i ddal y swydd bwysig hon.

Y tâl mynediad,i gynnwys coffi a bisgedi ar ôl y sgwrs, yw £8 i'r Cyfeillion sydd yn archebu ymlaen llaw, a £10 wrth y drws. Er mwyn manteisio ar y pris gostyngedig hwn**,** dychwelwch y daflen isod gyda'ch siec **at Janet Jones, Brayton, Llantwit Road, Creigiau Cardiff CF15 9NN** erbyn **dydd Iau, 3 Ionawr 2019.** I arbed costau postio, ni fydd cydnabyddiaeth. Mae'r digwyddiad yn agored i'r cyhoedd hefyd am £10 y pen, felly croeso i chi ddod â'ch ffrindiau.

Cyfeillion Amgueddfa Cymru: Sgwrs gan yr Athro Christine James:
'Taffy was a Welshman…'
Sadwrn 5 Ionawr 2019 yn Theatr Ddarlithio Reardon Smith, Parc Cathays, am 10.30 yb.

Carwn i chi gadw ……le/lle ar gyfer y digwyddiad uchod. Amgaeaf siec am £……..(yn daladwy i Gyfeillion Amgueddfa Cymru).

Enw/au……

Cyfeiriad……Cod post……...

Ffôn……..……E-bost……...